



**Busnesau/  
sefydliadau preifat  
ac elusennau yng  
Nghymru**




Yn wahanol i **sefydliadau'r sector cyhoeddus**, does dim rhaid i **sefydliadau a busnesau preifat** nac **elusennau** yng Nghymru fodloni **Safonau'r Gymraeg**, ond mae **Comisiynydd y Gymraeg** yn eu hannog yn gryf i gynnig gwasanaethau trwy'r Gymraeg.






Gall hyn olygu:

- eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg, ochr yn ochr â'r Saesneg (e.e. wrth ymdrin â chwsmeriaid, ar arwyddion, mewn deunydd marchnata a gohebiaeth, ar y cyfryngau cymdeithasol);
- recriwtio staff dwyieithog a
- defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn eu sefydliad/ busnes neu elusen.





**Gwaith  
trafod**



Beth yw'r gwahaniaeth  
rhwng **sefydliadau cyhoeddus**,  
**sefydliadau/ busnesau preifat** ac  
**elusennau/ y trydydd sector**?  
Allwch chi feddwl am enghreifftiau  
o sefydliadau/ busnesau preifat  
ac elusennau?





## Gwaith trafod

Beth yw eich profiad chi o  
ddefnyddio'r Gymraeg gyda  
**sefydliadau/ busnesau**  
**preifat neu elusennau**  
(e.e. mewn siop/ caffi?)



Rhan o waith **Comisiynydd y Gymraeg** yw dangos i'r **sefydliadau, busnesau ac elusennau** hyn beth yw **manteision** cynnig eu gwasanaethau'n **ddwyieithog**:



[Cymraeg - Ffordd o Fyw](#)



## Gwaith trafod

Beth, yn eich barn chi,  
fyddai **manteision** defnyddio'r  
Gymraeg i **sefydliadau**  
a **busnesau preifat** ac  
**elusennau** yng Nghymru?



**Dyma rai manteision posibl:**

**Byddai'n gwneud y sefydliad/  
busnes/ elusen yn fwy hygyrch  
i fwy o bobl ac felly'n denu  
mwy o gwsmeriaid.**







**Byddai'n arwydd bod y sefydliad/  
busnes/ elusen yn dangos parch  
at y Gymraeg, diwylliant Cymru a  
siaradwyr Cymraeg.**





**Byddai'n gwahaniaethu'r  
sefydliad/ busnes/ elusen  
wrth rai eraill a'i wneud yn  
fwy unigryw.**





**Gwaith  
trafod**

Tybed fedrwch  
chi feddwl am ragor  
**o fanteision?**



Os ydyn nhw'n **awyddus** i wneud, bydd **Comisiynydd y Gymraeg** yn gweithio gyda **sefydliadau** a **busnesau preifat** ac **elusennau** i greu eu **Cynllun Datblygu'r Gymraeg**, ac yn rhoi **hyfforddiant** iddyn nhw ar sut i ddatblygu **gwasanaethau dwyieithog**.

Gallant wedyn dderbyn **cydnabyddiaeth** y **Cynnig Cymraeg** gan y **Comisiynydd**, er mwyn dangos i'w defnyddwyr eu bod yn **ymfalchïo** yn yr iaith Gymraeg ac yn **barod i'w defnyddio**.



Heddiw, mae dros 100 o sefydliadau wedi derbyn cydnabyddiaeth Comisiynydd y Gymraeg, gan elwa o gydweithio gyda'r Comisiynydd ar eu **Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg** a derbyn cydnabyddiaeth y **Cynnig Cymraeg**, gan hyrwyddo a datblygu dwyieithrwydd eu busnes.



Engbreiffiau o  
fusnesau yw:



Archfarchnad Lidl



Archfarchnad Aldi



Principality



Boots



Undeb Rygbi  
Cymru



Xplore  
(canolfan wyddoniaeth  
yn ardal Wrecam)



Enghreifftiau o  
elusennau yw:



WWF Cymru



NSPCC Cymru



RSPB Cymru



Macmillan Cymru



Gwobr Dug Caeredin





Dyma farn ambell sefydliad/ busnes preifat ac elusen yng Nghymru ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg o dan y **Cynnig Cymraeg**:

“ Mae'n ofnadwy o bwysig i ni fel elusen addysgiadol fod ein buddiolwyr, gan gynnwys dysgwyr ifanc, yn gallu derbyn gwasanaeth yn Gymraeg a chlywed a phrofi terminoleg wyddonol yn ei chyd-destun. ”

Katie Williams,  
Swyddog Datblygu Busnes  
yn Xplore







“ Mae’r **Cynnig Cymraeg** yn rhoi hygrededd i’n hymrwymiad i’r iaith Gymraeg. Mae hefyd yn ein helpu i ddatblygu’r ddarpariaeth Gymraeg yr ydym yn cynnig. ”

Brân Devey,  
Rheolwr Cyfathrebu ac  
Ymgysylltu Ramblers Cymru





“ Ein prif nod yw sicrhau ein bod yn gwneud cymaint â phosib i gefnogi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ifanc i gael cyfleoedd newydd trwy gymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin. ”

Jessica Rumble,  
Swyddog Gweithredu gyda  
Gwobr Dug Caeredin Cymru





“ Trwy gefnogi cleientiaid banc bwyd yn ddwyieithog, gallwn ddarparu yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer eu cefnogi yn yr hir dymor. ”

Joanna Hillier,  
Cynorthwydd Rhaglen  
Banc Bwyd Arfon





“ Yn Lidl, rydym wedi ymrwymo i fod yn fanwerthwr cynhwysol, ar gyfer ein cwsmeriaid, ein cymunedau, a'n cydweithwyr. Yng Nghymru, mae diogelu a hyrwyddo ein hiaith yn rhan enfawr o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn gynhwysol. ”

Ute Thomas, Cyfarwyddwr  
Rhanbarthol Lidl yng  
Nghymru







Gwylwch y clip fideo hwn sy'n crynhoi beth yw'r **Cynnig Cymraeg**:

[Cynnig Cymraeg \(dwyieithog\)](#)



## Gwaith trafod

Ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig bod **sefydliadau/ busnesau preifat ac elusennau** yng Nghymru yn **ymfalchïo** yn y Gymraeg ac yn dangos i ddefnyddwyr eu bod yn **barod i'w defnyddio**, er nad oes rhaid iddyn nhw o dan Fesur y Gymraeg 2011?



